Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Parch Thomas Ellis
# Ffordd Treseifion
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 2AP

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, sy’n ysgol wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru, yn nhref Caergybi ar Ynys Môn. Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r ardal leol ynghyd â phentrefi cyfagos. Mae hon yn ysgol sy’n medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg pan fo galw.

Mae’r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir disgyblion i’r ysgol yn rhan-amser yn y mis Medi ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn ym mis Medi ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Maent wedi’u trefnu yn bum dosbarth o oed cymysg.

Mae 107 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy’n cynnwys 15 o oed meithrin. Ar hyn o bryd, nid oes un disgybl o gartref lle mae’r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae tua 42% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy’n uwch na’r canran sirol a chanran Cymru. Mae 35% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy’n uwch na’r ffigwr cenedlaethol. Mae gan ychydig ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae Uned Cybi yn adnodd sy’n darparu ar gyfer grŵp o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ag anghenion dysgu cymedrol ac yn gwasanaethu ysgolion cynradd eraill tref Caergybi a thu hwnt.

Mae’r pennaeth yn ei swydd ers mis Hydref 1997. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Parchedig Thomas Ellis yn 2014-2015 yw £5,068. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £9,552 a'r lleiafswm yw £2,870. Mae Ysgol Gynradd y Parch Thomas Ellis yn y 6ed safle o'r 48 ysgol gynradd ar Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Prif arfarniad**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ar fynediad i'r ysgol;
- safon lles uchel y disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol;
- pob disgybl yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr;
- safon yr addysgu yn gyson dda;
- darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a bod
- gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgar lle mae'r disgyblion yn hapus ac yn awyddus i ddysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a chenhadaeth gref yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a hapusrwydd a lles disgyblion;
- holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol a'i pherfformiad;
- gan arweinwyr ddealltwriaeth effeithiol o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen iddynt eu gwella;
- partneriaeth gref yn bodoli gyda'r rhieni a'r gymuned; a
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

## Argymhellion

A1 Codi canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau a'r lefelau cyrhaeddiad uwch

A2 Sicrhau gwelliannau pellach yn safonau Cymraeg ail iaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A3 Datblygu ymhellach ysgrifennu estynedig y disgyblion uwch eu gallu yng nghyfnod allweddol 2 ar draws y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion ar ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol yn wan ac islaw'r disgwyl ymhob deilliant.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Ar y cyfan, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn frwdfrydig yn y gwersi. Mae bron pob un yn cydweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau, gan gyfrannu'n effeithiol i drafodaethau.

Mae safonau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn gallu trafod eu syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn gynyddol hyderus. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth ac yn trafod eu syniadau'n ddeallus.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda mynegiant cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r testun ac maent yn trafod cynnwys llyfrau yn ddeallus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn gallu cywain gwybodaeth yn fedrus o wahanol ffynonellau.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Saesneg yn datblygu'n effeithiol. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn ysgrifennu yn gynyddol gywir ac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn dda ar draws y cwricwlwm. Gallant ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu at wahanol ddibenion yn addas, ond nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn llawn ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio paragraffau yn effeithiol, ond nid ydynt bob amser yn sillafu nac yn atalnodi yn gywir. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus iawn.

Mae bron pob un yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae eu medrau llafar yn datblygu'n dda yn fuan. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gan ran fwyaf y disgyblion yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y dydd wrth drin a thrafod mewn amrywiol bynciau. Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd digonol mewn safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael briodol ar fathemateg y pen ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau

rhif yn eu gweithgareddau. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau gwahanol ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Gallant gasglu, cofnodi a chyflwyno data yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif. Mae llawer ohonynt yn barod i gynnig atebion a rhannu eu canfyddiadau yn hyderus, gan ddefnyddio termau mathemategol cywir. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rannu, lluosi, mesur ac amcangyfrif yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer o ddisgyblion yn medru casglu a chynrychioli data yn gywir mewn tasgau rhif ac mewn tasgau ymchwilio. Mae gallu'r rhan fwyaf yn y cyfnod allweddol i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith thema.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim yn gwneud cynnydd da yn eu grwpiau targed.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, amrywiodd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn medrau llythrennedd, a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad y disgyblion ar y deilliant uwch na'r disgwyl, sef deilliant 6, mewn medrau llythrennedd yn y 50% is neu'r 25% isaf, ac roedd datblygiad mathemategol yn gyson yn y 25% isaf yn ystod yr un cyfnod. Mae'r merched wedi perfformio'n gyson well na'r bechgyn dros y tair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio ychydig dros y pedair blynedd diwethaf rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Saesneg a rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf mewn mathemateg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl, lefel 5 wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Saesneg ac mewn mathemateg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 2, mae'r merched wedi tueddu perfformio'n well na'r bechgyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn well na pherfformiad y rhai sydd ddim yn gymwys. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi perfformio cystal â'r lleill.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn deall pwysigrwydd ffitrwydd ac yn manteisio ar y cyfle da i brofi amrywiol weithgareddau i atgyfnerthu hyn drwy fynychu clybiau fel y clybiau chwaraeon a'r gweithgarwch ysgol iach. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad i fod yn unigolion cyfrifol.

Mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn dangos cwrteisi a pharch at staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda yn y gwersi, yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynnal dysgu ei gilydd yn y dosbarth. Maent oll yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd.

Mae gwaith y cyngor ysgol a'r cyngor eco yn datblygu'n dda ac mae'r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau am ddatblygiadau'r ysgol. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned sy'n cyfoethogi eu profiadau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn arddangos medrau aeddfed o ran cyfrifoldeb ac annibyniaeth trwy reoli'r siop ffrwythau a chadw cofnodion ariannol. Mae'r athrawon yn gwerthfawrogi barn y disgyblion ac yn gweithredu ar eu hawgrymiadau yn ofalus.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar sail y canran sy'n gymwys i dderbyn am ddim, mae presenoldeb y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio agos, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r cynllunio hefyd yn diwallu anghenion personol ac addysgol rhan fwyaf y disgyblion ac yn darparu profiadau a chyfleoedd sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion dan anfantais. Mae'r ysgol eisoes wedi ymgorffori elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn yn y cynlluniau.

Mae cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ynghyd â medrau meddwl, yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio. Mae yna gyfeiriadau clir at ddatblygiad a dilyniant o'r medrau hyn ar gyfer pob blwyddyn. Er bod yr athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion, nid yw hyn bob amser yn diwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog, yn enwedig mewn ysgrifennu yn estynedig ar draws y cwricwlwm.

Rhoddir sylw priodol i ddatblygu iaith Gymraeg y disgyblion. Mae gan y dimensiwn Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n addas. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant priodol i rieni mewn strategaethau addysgu darllen a rhifedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda ac yn treiddio i nifer o feysydd y cwricwlwm. Mae ailgylchu, arbed ynni a chynaliadwyedd yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn modelu iaith yn effeithiol. Mae perthynas waith dda rhwng staff a disgyblion ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol.

Mae amcanion gwersi wedi eu nodi’n glir. Mae’r athrawon yn holi’n fedrus ac yn ymyrryd ar adegau priodol gan roi cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae’r cymorthyddion dosbarth yn gweithio’n effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion. Yn yr ychydig wersi lle mae addysgu yn llai effeithiol, nid yw’r gweithgareddau bob amser yn cynnig digon o her i’r disgyblion mwy galluog.

Mae gan yr athrawon strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiol. Maent wedi eu sefydlu’n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu’r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion yn effeithiol. Mae’r holl athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson a thrwyadl, gan gynnig sylwadau adeiladol ac adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn ac mae ganddi weithdrefnau asesu hylaw ar waith. Mae hwn yn un o gryfderau’r ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd helaeth o’r data i olrhain cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysg ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi gwybod yn glir i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae hon yn ysgol hapus lle mae’r disgyblion teimlo’n ddiogel. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff disgyblion gyfleoedd da i hybu iechyd a ffitrwydd drwy amrywiol brofiadau addysg gorfforol.

Mae’r ysgol yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn addas. Mae’r holl bolisïau sy’n ymwneud â hyn yn cael eu cyfathrebu’n dda i randdeiliaid. Mae’r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb a lleisio barn ar ddatblygiadau sy’n gwella’r ysgol drwy eu gwaith gyda’r cyngor ysgol a’r cyngor eco.

Mae’r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae’n cydweithio’n agos iawn ag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o’r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae’r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn sicrhau’r gefnogaeth briodol iddynt. Mae gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm ac mae eu cynlluniau addysg unigol o ansawdd da. Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol ar eu cyfer. Mae’r Uned Cybi yn arbennig o dda ac mae’r ddarpariaeth yn cael effaith sylweddol ar safonau ac ar hyder y disgyblion sy’n mynychu’r Uned.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ddatganiad o genhadaeth a gwerthoedd Cristnogol cadarn. Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu’r awyrgylch croesawgar, gofalgar, hapus a chynhwysol.

Nodwedd gref yw'r ethos teuluol sy'n annog y disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd-ddisgyblion a, thrwy hynny, magu agwedd o barch a hunanhyder. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall pobl eraill o gefndiroedd amrywiol a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau addas yn eu lle. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol drwy weithdrefnau megis casglu tuag at elusennau.

Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu'r dysgu. Mae ystafelloedd dosbarth yn lliwgar gydag adnoddau cyfoethog ar gyfer dibenion y cwricwlwm ac arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Mae'r adeilad a'r safle yn ddiogel ac yn cael eu cadw'n lan a graenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweinyddiaeth feddylgar ac effeithiol y pennaeth, mae'r staff yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn ymroddi'n effeithiol i godi safonau'r disgyblion. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar dargedau gwella'r ysgol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu mesuradwy. Mae gan bob aelod o staff rolau wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cydweithio'n dda fel tîm effeithiol. Mae hon yn rhinwedd gref o arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol yn glir. Mae prosesau rheoli perfformiad yn gosod targedau realistig sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r staff yn canolbwyntio'n briodol ar faterion priodol sydd angen sylw er mwyn gwella'r ysgol.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a rheolaethol yn dda. Maent yn gefnogol ac yn cyfrannu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae adroddiadau o ansawdd da gan y pennaeth ac athrawon eraill yn sicrhau bod yr aelodau yn gwybod sut mae'r ysgol yn perfformio. Maent hefyd yn ymwybodol o'r agweddau cyffredinol a phenodol sydd angen eu blaenoriaethu i godi safonau ymhellach.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae'r ysgol eisoes wedi ymgorffori elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn i gynlluniau'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer arsylwi ar wersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau cwricwlaidd i staff a llywodraethwyr o gwmpas y dosbarthiadau.

Trwy ddadansoddi ystod eang o wybodaeth am berfformiad a darpariaeth yr ysgol yn ofalus, mae arweinwyr ac athrawon yn adnabod blaenoriaethau datblygu yn glir. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i farn rhieni drwy holiaduron cyson a sylwadau ar adroddiadau blynyddol eu plant. Trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion fynegi eu barn am safonau a darpariaeth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da ac yn rhoi darlun cywir a chytbwys o'r ysgol. Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella safonau, ac o'r herwydd mae'r ddogfen yn un ddefnyddiol a pherthnasol sy'n arwain at welliannau pellach mewn cyflawniad a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid priodol, gan gynnwys yr eglwys, y gymuned a'r awdurdod lleol i wella safonau a lles disgyblion ac i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Gweithia'r ysgol yn dda â rhieni. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad eu plant. Mae'r tîm arweinyddiaeth a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, ac maent yn gefnogol i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r pontio rhwng y cylch meithrin lleol a'r ysgol. Mae'r rhain yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r trefniadau pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a'r ysgolion uwchradd lleol yn effeithiol hefyd ac yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Gweithia'r ysgol yn dda gydag ystod o asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â'r ysgolion cynradd lleol a'r ysgol uwchradd i gyd-safoni a chymedroli asesiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae hyn yn datblygu hyder athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan arweinwyr gynlluniau ariannol pendant wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion cyfredol. Mae'r tîm cyllid yn cynllunio ei ddefnydd o adnoddau'n ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol iawn i godi safonau ac i hyrwyddo lles y disgyblion.

Mae lefel briodol o staff wedi eu hyfforddi yn gymwys i gyflwyno'r cwricwlwm ac mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan bwysig ac effeithiol o'r tîm ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu ac addysgu. Gwna'r ysgol y defnydd gorau posibl o'r adnoddau i atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn briodol ac yn cyflawni holl ofynion y cytundeb baich gwaith cenedlaethol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau llwyddiannus o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill.  Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd ac yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu heffeithiolrwydd.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6603033 - Ysgol Parch. Thomas Ellis**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 127 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 59.7 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 11 | 14 | 16 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 72.7 | 92.9 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 14 | 16 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 81.8 | 92.9 | 81.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 14.3 | 18.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 14 | 16 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 72.7 | 92.9 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 7.1 | 12.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 14 | 16 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 72.7 | 92.9 | 81.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 14.3 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6603033 - Ysgol Parch. Thomas Ellis**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 127 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 59.7 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 12 | 12 | 13 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 50.0 | 83.3 | 83.3 | 76.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 12 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 83.3 | 83.3 | 76.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 25.0 | 41.7 | 0.0 | 23.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 12 | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 58.3 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | * | 8.3 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 12 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 83.3 | 83.3 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 8.3 | 33.3 | 0.0 | 15.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 12 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 91.7 | 91.7 | 92.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 16.7 | 25.0 | 0.0 | 23.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 44 | 43<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 44 | 44<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 44 | 44<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 44 | 44<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 44 | 44<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 44 | 44<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 44 | 42<br>95%<br>91% | 2<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 44 | 44<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 44 | 37<br>84%<br>77% | 7<br>16%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 44 | 39<br>89%<br>84% | 5<br>11%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alison Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.